**Cyfarfod y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a chynrychiolwyr y Trydydd Sector**

**30 Medi 2019, 14.00-15.00**

**Ystafell Gyfarfod Caernarfon, CP2**

## Rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol

Julie James AC, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

### Y Trydydd Sector

| | |
|---|---|
| Judith Stone | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, |
| Dave Cook | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, |
| Noreen Blanluet | Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru |
| Peter Williams | Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru |
| Jocelle Lovell | Canolfan Gydweithredol Cymru |
| John Puzey | Shelter Cymru |
| Ross Thomas | Tai Pawb |
| Matthew Kennedy | Sefydliad Tai Siartredig Cymru |
| Iwan Thomas | Planed |
| Rachel Marshall | Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru |
| Bryn Hall | Clinks |
| Matt Dicks | Sefydliad Tai Siartredig Cymru |
| Eli Crouch Puzey | Cymorth i Ferched Cymru |
| Helene Hayes | CA Cymru |

### Swyddogion Llywodraeth Cymru

| | |
|---|---|
| Paula James | Partneriaethau a Thrawsnewid Llywodraeth Leol |
| James Burgess | Y Cyflenwad Tai |
| Simon White | Strategaeth a Deddfwriaeth Tai |
| Siwan Gwyndaf | Strategaeth a Deddfwriaeth Tai |
| Kieran Harris | Ysgrifennydd Preifat |

### Ymddiheuriadau

| | |
|---|---|
| Ian Davy | Cefnogi Trydydd Sector Cymru (CTSC) |
| Paul Glaze | Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol |

**Croeso**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.

Rhoddodd y Gweinidog wahoddiad i gyflwyno'r eitem gyntaf ar yr agenda.

**Eitem 1 Modelau arloesol ar gyfer tai cymunedol yng Nghymru**

Diolchodd Peter Williams i'r Gweinidog am y cyfle hwn a siaradodd am brif bwyntiau'r papur mewn perthynas â Thai Cydweithredol a Thai a Arweinir gan y Gymuned.

Cadarnhaodd y Gweinidog ei bod yn awyddus iawn i ymchwilio ymhellach i rwystrau a phroblemau modelau arloesol ar gyfer tai cymunedol yng Nghymru ac i ymchwilio i atebion ymarferol iddynt. Rhoddodd y Gweinidog grynodeb o'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch sut y bydd y tir y mae Llywodraeth Cymru yn berchen arno yn cael ei reoli yn wahanol a sut y bydd yn cael ei ystyried yn ôl ei werth cymdeithasol yn hytrach na'i werthu i'r cynnig uchaf. Mae'r Gweinidog yn awyddus i weithio drwy enghreifftiau ymarferol sy'n ymwneud â safleoedd byw.

Aeth y Gweinidog yn ei blaen i ddisgrifio rhai o elfennau allweddol Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), yn enwedig y ffaith y bydd y Bil yn caniatáu sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig rhanbarthol, drwy reoliad. Mae'r cyrff hyn yn 'gorfforedig' am eu bod yn gyrff cyfreithiol sy'n gallu ymrwymo i gontractau, derbyn grantiau a chyflogi staff.

Bydd y Bil yn galluogi Gweinidogion i greu Cyd-bwyllgorau Corfforedig i gyflawni swyddogaethau yn y meysydd canlynol:

- Cynllunio Strategol ar gyfer defnydd tir
- Trafnidiaeth
- Datblygu Economaidd
- Gwella Addysg

Aeth y Gweinidog yn ei blaen i ddisgrifio sut y bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn helpu modelau tai cymunedol drwy agor y ffordd i rannu sgiliau ac adnoddau prin ymhlith awdurdodau lleol. Byddant hefyd yn ei gwneud yn bosibl ystyried modelau tai ar lefel ranbarthol yn hytrach nag ar lefel awdurdod lleol. Bydd hyn yn helpu i fwrw ymlaen â dull gweithredu mwy strategol o gynllunio ac o ymchwilio i fodelau ac i atebion mwy gweddnewidiol.

Aeth y drafodaeth ymlaen i ystyried pwysigrwydd tai fel rhan annatod o gymunedau sy'n ffynnu, gan gynnwys yr angen i gadw pobl a sgiliau er mwyn sicrhau hyfywedd cymunedau yn y tymor hir. Roedd y gallu i gael gafael ar gyllid yn ystyriaeth bwysig yn hyn o beth.

Dywedodd y Gweinidog fod ganddi ddiddordeb mawr mewn ymchwilio ymhellach i fodelau cymdeithasol polisïau dyrannu tai. Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi cael hyfforddiant defnyddiol gan swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch yr opsiynau ariannol ar gyfer tai, a chynigiodd yr hyfforddiant i gydweithwyr o'r Trydydd Sector yn y cyfarfod.

> **Cam gweithredu:** Swyddogion i roi hyfforddiant ariannol i gydweithwyr yn y Trydydd Sector.

Codwyd pryderon gan rai a oedd yn bresennol ynghylch yr anawsterau y maent wedi'u profi wrth geisio cael sgwrs fanwl â Chynllunwyr yn Llywodraeth Cymru am dai a arweinir gan y gymuned.

> **Cam gweithredu:** James Burgess i drefnu cyfarfod â swyddogion cynllunio Llywodraeth Cymru ynghylch tai a arweinir gan y gymuned.

Cafwyd trafodaeth wedyn am gynllun hunanadeiladu sy'n lansio yn y Flwyddyn Newydd a dywedodd y Gweinidog yr hoffai glywed rhagor am hyn, a'i bod hefyd yn awyddus i gael trafodaeth bellach ynghylch sut i ddod â thai sydd angen eu hatgyweirio yn ôl yn rhan o'r cyflenwad tai.

**Eitem 2: Cartrefedd fel Hawl Ddynol**

Cyflwynwyd y papur hwn gan Ross Thomas (Tai Pawb), John Puzey (Shelter Cymru) a Matt Dicks (Sefydliad Tai Siartredig Cymru). Cyfeiriwyd yn y papur at yr adroddiad a ganlyn gan Dr Simon Hoffman o Brifysgol Abertawe, '*Feasibility Report on Incorporation of the Right to Adequate Housing*'.

Nodwyd fod y Gweinidog yn bresennol yn lansiad 'Cartrefedd fel Hawl Ddynol' yn adeilad y Pierhead, a hefyd y bydd y Gweinidog yn cyfarfod â Dr Simon Hoffman, awdur yr adroddiad uchod, ar 15 Hydref.

Gofynnodd y cydweithwyr yn y cyfarfod i Lywodraeth Cymru geisio cynnwys Cartrefedd fel Hawl Ddynol yng nghyfraith Cymru.

Dywedodd y Gweinidog y bydd yn trafod hyn â'r Cwnsler Cyffredinol, ond ei bod yn annhebygol y bydd cyfle i ddeddfu yn ystod y 18 mis nesaf oherwydd bod y calendr deddfwriaethol yn llawn, gan gynnwys deddfwriaeth yn ymwneud â Brexit.
Fodd bynnag, byddai'r Gweinidog yn trafod dau faes lle y gallai fod cyfle i gynnwys yr Hawl Ddynol i Gartrefedd.

Pe gwneid penderfyniad nad oedd cyfle i gynnwys yr Hawl Ddynol i Gartrefedd yn yr amserlen ddeddfwriaethol bresennol, cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'n ystyried argymell hyn fel ymrwymiad maniffesto.

**Cam Gweithredu:** Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol a'r Cwnsler Cyffredinol i drafod posibilrwydd cynnwys yr Hawl Ddynol i Gartrefedd yn yr amserlen ddeddfwriaethol bresennol.

Yn y cyfamser, cadarnhaodd y Gweinidog ei byddai'n hapus i gefnogi'r gofyniad i roi sylw dyledus i gartrefedd fel hawl ddynol mewn ystyriaethau eraill.

## Eitem 3: Cydgynhyrchu a chyfrannu

Arweiniwyd yr eitem hon gan Noreen Blanluet o Rwydwaith Cydgynhyrchu Cymru. Gofynnodd Noreen am ddatganiad gan y Gweinidog ynghylch cynnydd awdurdodau lleol o ran rhoi cydgynhyrchu a chyfrannu ar waith.

Dywedodd y Gweinidog fod y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) sydd ar y gweill yn newid y drefn i awdurdodau lleol o ran perfformiad gan nad yw'r dull presennol, sy'n seiliedig ar archwilio, yn effeithiol. Bydd y drefn newydd yn cyflwyno adolygu gan gymheiriaid, hunanasesu a dull gweithredu mwy cydgynhyrchiol. Hefyd, disgrifiodd y Gweinidog sut y byddai cyfrannu a chydgynhyrchu ar ran dinasyddion yn rhan o'r broses honno, yn ogystal â chwilio pedwar ban byd am yr arfer gorau.

Hefyd, disgrifiodd y Gweinidog sut y mae'r rheoliadau ar gyfer y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cael eu cydgynhyrchu gyda llywodraeth leol ar gyfer y pedwar maes gorfodol.

Dywedodd y Gweinidog y byddai'n croesawu sylwadau ar y Bil drafft a syniadau ynghylch canllawiau ar gyfer cydgynhyrchu.

## Cloi'r cyfarfod

Diolchodd y Gweinidog i bawb am ddod ac am y papurau, gan ategu unwaith eto ei hawydd i barhau i weithio gyda nhw ar y materion a godwyd.